



Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd Y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

9 Mehefin 2020

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Rydym am rannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda chi am raddol ail-agor ysgolion Powys.

Cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru, Kirsty Williams, ar 3 Mehefin 2020 y bydd cyfle i bob plentyn 'Ddod i'r Ysgol, Dal ati i Ddysgu, Paratoi ar gyfer yr Haf a Mis Medi'. Bydd y cam nesaf yn cychwyn ar 29 Mehefin 2020 gydag wythnos ychwanegol ar ddiwedd y tymor gan felly orffen ar 27 Gorffennaf 2020.

Mae hwn yn gyfnod anodd i bawb. Rydym yn gwybod fod nifer yr achosion o COVID-19 wedi gostwng yn genedlaethol ac mae eich gweithredoedd chi wedi cyfrannu'n enfawr at hyn. Rydym hefyd yn ymwybodol fod y cyfyngiadau symud wedi bod yn anodd iawn i rai teuluoedd a phlant. Bydd rhai wedi dioddef colled a galar, eraill yn wynebu heriau ariannol ac mae newid ac ansicrwydd wedi effeithio ar bawb. Y cam nesaf yw sut y gallwn agor pethau'n raddol ac yn gall fel na fyddwn yn gweld cynnydd yn nifer yr achosion yn lleol.

Mae'n anochel y byddwch yn teimlo'n ansicr a bod gennych gwestiynau ar amgylchiadau unigol eich plentyn. Rydym am geisio delio â'r cwestiynau hynny a mynd i'r afael â'ch pryderon.

Ein blaenoriaeth yw diogelwch y plant a'r staff.

Ni ddylai plant sydd â llythyr gwarchod oherwydd cyflwr meddygol neu sy'n rhannu aelwyd â rhywun sydd â llythyr gwarchod, ddychwelyd i'r ysgol.

Bydd timau arwain ysgolion yn cynnal asesiadau risg i'w helpu i weithio ar ffordd sy'n iawn i ysgol eich plentyn.

Fel cyngor, rydym yn cydnabod na fydd pob ysgol yn gallu gwireddu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar unwaith. Bydd capasiti ysgolion yn amrywio a bydd angen i nifer o ysgolion gyflwyno mesurau ailintegreiddio fesul dipyn. Fe allai hyn effeithio ar y grwpiau blwyddyn fydd yn bresennol a'r diwrnodau sydd ar gael.

Bydd ysgolion yn gweithio'n wahanol iawn, o leiaf am weddill tymor yr haf. Bydd rhaid i'r dosbarthiadau fod yn fach a bydd ysgolion yn rhoi mesurau cadw pellter

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk



cymdeithasol ar waith. Mae hyn yn golygu trefnu gwersi'n wahanol iawn. Bydd rhaid gwasgaru amserau egwyl a chinio, a bydd amser dechrau a gorffen yr ysgol yn wahanol.

Byddwn yn gweithio'n agos gydag ysgolion a llywodraethwyr i geisio sicrhau cysondeb o ran egwyddorion a dulliau gweithio. Gan y bydd rhai plant yn yr ysgol ac eraill gartref, bydd angen i athrawon ystyried sut i gydbwysu'r gwahanol agweddau at addysgu.

Os bydd angen cludiant ar eich plentyn i fynd i'r ysgol, bydd y trefniadau hyn yn newid gan y bydd trefniadau llym ar waith o ran diogelwch a chadw pellter cymdeithasol. Mwy o fanylion i ddod maes o law.

Rydym yn sylweddoli bod y ffaith na fydd ysgolion yn agor yn llwyr yn creu anawsterau i rieni sy'n gweithio a byddwn yn llunio cyfres o gwestiynau cyson i'w rhoi ar wefan y cyngor <https://cy.powys.gov.uk/ysgolion> erbyn diwedd yr wythnos.

Fel awdurdod lleol ac ysgolion unigol, rhaid cynllunio'n ofalus sut rydym yn bwriadu ail-agor ysgolion ac mae angen gwybod faint o blant fydd yn mynychu'r ysgol dros y cyfnod hwn a sut y byddan nhw'n teithio i, ac o'r ysgol. Felly, rydym wedi creu arolwg i'w lenwi gan rieni.

Bydd angen llenwi'r arolwg yn unigol i bob plentyn.

Gallwch gyrraedd yr arolwg yma - <https://tinyurl.com/school-reopening-survey> - a bydd eich atebion yn ein helpu ni a'r ysgol yn fawr gyda'r broses gynllunio. Cofiwch lenwi'r arolwg **i bob plentyn unigol** mor fuan â phosibl ac erbyn dydd Gwener 12 Mehefin fan bellaf.

Mae'r Gweinidog Addysg wedi dweud bod disgwyl i ddisgyblion fynychu'r ysgol. Fodd bynnag, mae amgylchiadau personol rhieni a gofalwyr yn gallu newid. Gall yr amgylchiadau hyn ddylanwadu ar eich penderfyniad i anfon eich plentyn i'r ysgol neu beidio. Beth bynnag fydd eich penderfyniad chi, byddwn yn deall hynny dros y cyfnod anodd hwn.

Gan ddiolch i chi ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto pan fyddwn wedi derbyn canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru.

Cyng. Phyl Davies
Aelod Cabinet – Addysg ac Eiddo

Yn agored a blaengar - Open and enterprising

www.powys.gov.uk